Cadw

# Mae'r adeilad hon yn rhestredig o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

## Adeilad Rhestredig: Adroddiad am Adeilad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod :** | Sir Ceredigion | **Rhif Cyfeirnod :** | 87825 |
| | | **Dyddiad Dynodi :** | 08 Mar 2021 |
| **Cymuned :** | Llanfair Clydogau | **Dyddiad Diwygio :** | |
| **Ardal :** | Pentrefelin | **Dyddiad Dadrestru :** | |
| | | **Cyfeirnod Grid :** | 261077,248882 |
| | | **Gradd :** | II |
| **Enw :** | Dyffryn | | |
| **Rhif, Enw, Stryd :** | | | |
| **Ochr o'r stryd :** | | | |

**Lleoliad :**

Ychydig i'r Dwyrain o'r bont ym Mhentrefelin, gyferbyn â Melin Glanrafon, ac yn sownd wrth Benpompren ar yr ochr Dde, ar ochr Ogleddol isffordd o Gellan i Bentrefelin, tua 0.5km i'r Dwyrain o Gellan.

**Hanes :**

Yn ddiweddarach na Phenpompren sy'n sownd wrtho ond wedi'i ddynodi ar fap yr Arolwg Ordnans 1887. Dywedir ei fod wedi'i ail-gynllunio tua 1907, a'i adnewyddu yn gynnar yn yr 21ain ganrif.

**Tu allan :**

Bwthyn 2-lawr 2-ffenestr o gerrig rwbel dan do llechi wedi'i adnewyddu gyda chyrn simdde o frics. Mae pennau brics coch i'r agoriadau ac mae'r ffenestri codi corniog 4-paen wedi'u hadnewyddu. Mae'r tu blaen yn wynebu'r Gogledd-Orllewin, i ffwrdd oddi wrth y ffordd, ac mae'n sefyll yn bellach yn ôl ac yn is na Phenpompren sy'n sownd wrtho. Mae drws wedi'i fordio i'r chwith a ffenestr gasment 2-olau i'r Dde ohono. Nid yw ffenestri codi corniog 4-paen y llawr uchaf mewn llinell â ffenestri'r llawr gwaelod. Mae i'r cefn, sy'n wynebu'r ffordd 2 ffenestr godi 4-paen yn y ddau lawr.

**Tu mewn :**

Heb ei archwilio.

**Rhestredig :**

Wedi'u rhestru fel pâr o fythynnod sy'n cadw eu cymeriad o ddechrau'r 20fed ganrif, ac fel grwp o werth gyda Bwthyn Pentrefelin, Melin Glanffrwd a Thy'r Felin.

## Cyfeiriadau

Ni chofnodwyd unrhyw un

**Darddiadau**

| Awdur | Dyddiad Cyhoeddi | Teitl | Cyfrol |
| --- | --- | --- | --- |
| | | RCAHMW files | |